

POLISI DISGYBLAETH AC YMDDYGIAD YSGOL PEN-Y-GARTH



Ysgol Pen-y-Garth

YSGOL PEN-Y-GARTH

POLISI DISGYBLAETH AC YMDDYGIAD

DATGANIAD POLISI:

Ein bwriad trwy weithredu`r polisi hwn yw darparu awyrgylch ddiogel a hapus i`n plant drwy feithrin ynddynt y gallu i dderbyn cyfrifoldeb dros eu hymddygiad a`u gweithredoedd eu hunain. Gweithredwn o fewn strwythur disgyblaeth sydd yn seiliedig ar barch at yr unigolyn a`i farn, parch at eiddo a pharch at yr amgylchfyd. Anogwn hefyd drwy`r cwriciwlwm ABCh bwysigrwydd bod yn sensitif i deimladau pobl eraill, bod yn barod i helpu ac i fod yn garedig at eraill. Ein nod yw bod ymddygiad a disgyblaeth yr ysgol yn arwain at awyrgylch briodol i sicrhau dysgu effeithiol, a phlant hapus.

Y Polisi

Pwrpas y polisi yw sefydlu fframwaith ar gyfer meithrin ymddygiad derbyniol. Seilir y fframwaith ar gyfres o reolau ymddygiad derbyniol yn y dosbarth, y neuadd, amser chwarae a`r neuadd ginio. Llunir y rheolau dosbarth drwy drafodaeth rhwng yr athro â`r dosbarth fel bod y dosbarth cyfan yn cymryd perchnogaeth o`r ymddygiad derbyniol ac yn fwy tebygol felly o geisio cadw o fewn y ffiniau a osodwyd. Bydd pob dosbarth yn llunio rheol sy`n cadarnhau mai Cymraeg yw iaith yr ysgol ar bob achlysur.

Gweithredwn hefyd reolau ar gyfer trefn a diogelwch cyffredinol yr ysgol o ddydd i ddydd. e.e.

- disgwylir i`r plant fod yn gwrtais gyda`r athrawon, staff cyffredinol yr ysgol, staff amser cinio, cynorthwywyr ysgol, ymwelwyr a chyd-ddisgyblion
- ni ddylai unrhyw blentyn ymddwyn mewn ffordd sydd yn peri i blentyn arall i fod yn anhapus yn yr ysgol (gweler polisi gwrthfwlian yr ysgol)
- ni ddylai plentyn redeg o fewn adeiladau`r ysgol
- ni ddylai unrhyw blentyn adael y dosbarth heb ganiatád yr athro
- ni ddylai plentyn adael safle`r ysgol heb ganiatad athro neu`r

Pennaeth

Sicrhawn bod y plant, athrawon, cynorthwyr dosbarth a staff amser cinio yn deall pwysigrwydd y rheolau hyn ac ymdrechwn bob amser i fod yn gyson wrth weithredu'r gyfundrefn ddisgyblaeth. Hefyd, mae hi'n hanfodol bod athrawon yn gosod esiampl o ymddygiad derbyniol yn eu hymwneud â phlant.

Mae polisi yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn yn y gred mai trwy ddangos a chydabod ymddygiad da y mae meithrin ymddygiad derbyniol. Gweithredwn felly nifer o wahanol ddulliau o gydnabod a dangos gwerthfawrogiad o ymddygiad da megis wynebaw hapus, sticeri, tystysgrifau, gwobrau dosbarth ar ddiwedd wythnos neu ddiwedd tymor, nodyn canmol i'r cartref neu alwad ffon. Credwn ei bod yr un mor bwysig i blant ddeall bod canlyniadau hefyd i ymddygiad annerbyniol. Gweithredwn felly strwythur o rybuddion ac ataliadau fel a ganlyn:-

Rhybuddion dosbarth:-

1. rhybudd llafar o'r rheol neu'r ymddygiad disgwylidig (rhoddir 3 chyfle)
2. symud oddi wrth y grwp i weithio yn unigol
3. symud i ddosbarth arall
4. mynd at y Pennaeth
5. cysylltu â'r cartref trwy alwad ffôn neu nodyn

Rhybuddion amser chwarae:-

1. 3 rhybudd llafar o'r rheol neu o'r ymddygiad disgwylidig
2. symud i sefyll ar wahan i'r plant eraill
3. danfon at y Pennaeth ar ddyletswydd

Rhybuddion neuadd ginio:-

1. 3 rhybudd llafar o'r rheol neu'r ymddygiad disgwylidig
2. symud i fwyta ar wahan i'r plant eraill
3. danfon at y Pennaeth ar ddyletswydd

Cydnabyddwn na fydd y fframwaith hwn yn addas ar gyfer delio

gyda`r achosion hynny o ymddygiad difrifol. Yn yr achosion hynny gall plentyn ddisgwyl cerydd llafar, atal breintiau, amser o`r neilltu mewn man diogel dan oruchwyliaeth, neu golli amser chwarae. Ystyrir yr ymddygiad canlynol yn fater difrifol:-

- trais corfforol
- sylwadau hiliol
- fandaliaeth
- iaith anwedus
- anghwrteisi neu ymddygiad heriol tuag at oedolyn
- gadael safle`r ysgol heb ganiatâd

Ymhob achos o ymddygiad difrifiol bydd y Pennaeth yn cysylltu â`r rheini. Nodir unrhyw ddamwain gorfforol yn y llyfr damweiniau ac fe hysbysir rieni`r plentyn a anafwyd.

Mewn achosion pan fo plentyn yn `colli tymer` yn aml rhoddir cyngor personol ar ddulliau rheoli tymer. Gall hyn ddigwydd yn ystod Amser Cylch, mewn grwpiau arbennig, neu fel darpariaeth un i un. Manteisiwn ar gyngor y Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion a`r Uned Ymddygiad a chyd-weithiwn gyda`r rhieni i geisio helpu`r plentyn i ddeall y rhesymau dros ei ymddygiad ac i wella ei hunan ddisgyblaeth. Mewn achosion o anawsterau ymddygiad difrifol cyfeirir y plentyn at y Seicolegydd Addysg.

Mewn achosion o fwlian gweithredir yn unol a pholisi gwrth-fwlian yr ysgol.